# Comisiwn y Cynulliad
# Assembly Commission

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**NAFWC 2014 (Papur 5 Rhan 1)**
**e-ddemocratiaeth: strategaeth y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer ymwneud digidol â phobl Cymru**

**Dyddiad:** 30 Medi 2010
**Amser:** 16:00
**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda 4B
**Enw a rhif cyswllt awdur y ddogfen: Iwan Williams, estyniad 8039**

## e-ddemocratiaeth: strategaeth y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer ymwneud yn ddigidol â phobl Cymru

*Paratowyd y papur hwn i'w ystyried gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Penderfynwyd ei bod yn addas ei gyhoeddi wedi iddo gael ei ystyried yn unol â rheolau'r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes. Ni chaniateir i gynnwys y papur hwn gael ei gyhoeddi na'i ddatgelu'n rhy gynnar oherwydd gallai hyn ddylanwadu ar drafodaethau'r Comisiwn.*

**1.0 Pwrpas y papur a chrynodeb o'r materion**

1.1 Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n awyddus i wneud mwy o ddefnydd o ystod o ddulliau cyfathrebu digidol er mwyn cynyddu lled a dyfnder ei ymwneud â phobl Cymru a rhanddeiliaid eraill.

1.2 Mae'r strategaeth e-ddemocratiaeth yn ymateb i'r dyhead hwnnw, ac mae'n amlygu bwriad clir y bydd y Cynulliad yn cofleidio technoleg newydd er mwyn sicrhau ei fod mewn sefyllfa i gael perthynas â phobl Cymru mewn ffordd sy'n caniatáu iddo reoli ac arwain trafodaethau.

**2.0 Argymhellion**

2.1 Argymhellir bod Comisiwn y Cynulliad yn cytuno ar y cyfeiriad strategol a amlinellir yn Atodiad A.

## 3.0 Trafodaeth

**3.1 Mae'r strategaeth yn cydnabod bod y Cynulliad, mewn sawl ffordd, ar y blaen ar ei gyfoedion o ran ei ddefnydd o dechnoleg – o systemau gwybodaeth deallus yn y Senedd i'r ymdrechion llwyddiannus i sicrhau bod gan y Cynulliad Cenedlaethol bresenoldeb ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol.**

**3.2 Fodd bynnag, tactegol yn hytrach na strategol, ac ysbeidiol yn hytrach na chyson, fu cynlluniau'r Cynulliad yn y maes hwn hyd yn hyn. Bwriad y papur hwn felly yw awgrymu dull gweithredu i'r Cynulliad sy'n gymesur â'i statws fel deddfwrfa flaengar a mentrus.**

**3.3 Lluniwyd y strategaeth e-ddemocratiaeth er mwyn ategu ac ychwanegu at ddulliau cyfathrebu traddodiadol fel cysylltiadau â'r cyfryngau, allgymorth a'n presenoldeb mewn digwyddiadau, ac er mwyn potreadu'r Cynulliad ac Aelodau'r Cynulliad yn hygyrch a blaengar.**

**3.4 Mae'r ddogfen yn amlinellu'r cyfeiriad strategol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ond NID yw'n ddogfen weithredol. Ar ôl i Gomisiwn y Cynulliad gymeradwyo'r ddogfen, caiff cynllun gweithredu e-ddemocratiaeth manwl ei lunio.**

**3.5 Mae'r strategaeth wedi ystyried y lleihad cyffredinol o 5 y cant yn y gyllideb ar gyfer 2011-12 a'r lleihad arfaethedig cronnus o rhwng 20 a 25 y cant erbyn diwedd 2014-15. Felly, mae modd rhoi'r strategaeth ar waith o fewn y cyllidebau blynyddol llai.**